

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysgu myfyrwyr o oedran ysgol a/neu sy'n ymwneud â hynny. Rydym yn byw mewn byd cymdeithasol a digidol cymhleth sy'n newid yn gyflym. Sut mae hyn yn newid ein ffordd o feddwl o ran y math o gwricwlwm, addysgeg ac asesu sydd eu hangen er mwyn addysgu cenedlaethau'r dyfodol? Wrth i'r myfyrwyr ryngweithio ag eraill ar y modiwl hwn ac ymdrin ag amrywiaeth o gyfryngau ac ymchwil gyhoeddiedig mewn modd beirniadol, byddant yn ystyried safbwyntiau presennol am addysg ledled y byd. Yna, byddant yn dechrau llunio eu gweledigaeth eu hunain o'r modd y gall addysgwyr baratoi myfyrwyr yn effeithiol at gyfer y dyfodol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd uwch ar lefel meistr, o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel ddoethurol
- profiad o addysgu ar lefel meistr ar-lein
- gwybodaeth am leoliadau lle y caiff myfyrwyr o oedran ysgol eu haddysgu, a dealltwriaeth ohonynt
- gwybodaeth am ddamcaniaethau addysgol o ran y cwricwlwm addysgeg ac asesu mewn amrywiaeth o leoliadau, a dealltwriaeth ohonynt
- y gallu i addysgu myfyrwyr gradd meistr a meithrin eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth feirniadol
- parodrwydd i ddilyn y trafodaethau byd-eang diweddaraf ym maes addysg, a rhoi sylw iddynt
- tystiolaeth o annog deialog, rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac ymarfer arloesol mewn perthynas â hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol
- tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' a gwaith cydweithredol, a hynny o fewn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ynghylch y cwricwlwm, addysgeg ac asesu
- ac i rannu trafodaethau a gwybodaeth newydd â chydweithwyr a myfyrwyr
- ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaeth â chymheiriaid am addysgu a dysgu
- ymrwymiad i hwyluso cymorth cyfoedion ymhlith y myfyrwyr
- profiad o weithio gyda myfyrwyr o oedran ysgol mewn cyd-destun ffurfiol ac anffurfiol

Gwybodaeth ychwanegol

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh: gwe-ddwys	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5

Disgwylir i'r Darlithwyr Cyswllt hefyd farcio a dilysu'r aseiniadau diwedd modiwl a gyflwynir gan eu myfyrwyr a byddant yn derbyn taliad ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn. Yn yr un modd, cânt eu gwahodd i ailfarcio'r aseiniadau diwedd modiwl a gyflwynir gan fyfyrwyr y tu allan i'w Grŵp Tiwtora a byddant yn derbyn taliad ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn hefyd, os ydynt yn gallu ac yn dewis gwirfoddoli i gwblhau'r gwaith ychwanegol hwn.